Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Cryno ar yr Arolygiad

## Cowell Street Skin and Hair Clinic
## Dyddiad yr arolygiad: 19 Ebrill 2022
## Dyddiad cyhoeddi: 20 Gorffennaf 2022



Mae'r ddogfen gryno hon yn rhoi trosolwg o ganlyniad yr arolygiad



978-1-80364-557-5

Ar y cyfan, canfuom fod y gwasanaeth yn rhoi profiad cadarnhaol i gleifion, mewn amgylchedd modern a oedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Roedd y rheolwyr yn frwdfrydig ac yn canolbwyntio ar y cleifion wrth ddarparu’r gwasanaethau a'r triniaethau ac roeddent yn y broses o ddatblygu eu gweithlu i fodloni'r galw gan gleifion.

Nodwyd nifer fach o feysydd gennym i'w gwella, ond ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau.

Er i ni adolygu agweddau ar y clinig gwallt, roedd ffocws yr arolygiad hwn ar y triniaethau laser a golau pwls dwys (IPL).

Sylwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.



# Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Cowell Street Skin and Hair Company ar 19 Ebrill 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC.

Mae'r fersiwn gryno hon o'r adroddiad wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Mae adroddiad llawn, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac sy'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol, ar gael ar ein gwefan.

# Ansawdd profiad y claf

## Crynodeb cyffredinol

- Ar y cyfan, canfuom fod y gwasanaeth yn darparu triniaethau i'r cleifion mewn amgylchedd croesawgar a modern. Roedd y rheolwr cofrestredig yn awyddus i sicrhau bod y cleifion yn cael profiad o safon ac adlewyrchwyd hyn yn adborth y cleifion.

## Yr hyn a ganfuom a wnaeth y gwasanaeth hwn yn dda

- Roedd amgylchedd y claf yn groesawgar ac yn fodern.
- Cafwyd adborth cadarnhaol gan gleifion ar draws pob rhan o'r clinig.

**Yng ngeiriau'r cleifion:**

Cawsom 16 o holiaduron wedi'u cwblhau.

Darparodd y cleifion y sylwadau canlynol i ni:

*"Gwasanaeth ardderchog"*
*"Gwasanaeth anhygoel. Dwi'n argymell Cowell Street Clinic yn fawr"*
*"Cyfeillgar iawn a hawdd mynd ato"*

# Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

## Crynodeb cyffredinol

- Ar y cyfan, canfuom fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer cynnal a chadw a sicrhau diogelwch parhaus yr offer laser. Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw i safon dda, a oedd yn cynnwys darpariaethau gwybodaeth, ymgynghori a chydsyniad addas.

## Yr hyn a ganfuom a wnaeth y gwasanaeth hwn yn dda

- Roedd trefniadau addas ar gyfer sicrhau diogelwch a chynnal a chadw'r offer laser.
- Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau a glanhau.
- Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw i safon dda ym mhob maes.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Agweddau ar drefniadau meddygol brys yn ystafell driniaeth y clinig gwallt.
- Dylid adolygu protocolau triniaeth yn amlach.

**Yng ngeiriau'r cleifion:**

- Cytunodd pob claf fod y lleoliad yn lân iawn a bod mesurau COVID-19 yn cael eu dilyn.
- Cadarnhaodd pob claf eu bod wedi cael prawf croen cyn cael eu triniaeth.
- Dywedodd pob claf wrthym eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i atal haint a chynorthwyo gwella.

# Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

## Crynodeb cyffredinol

- Ar y cyfan, gwelsom fod y rheolwr cofrestredig yn frwdfrydig ac yn wybodus am y triniaethau a ddarperir a'i fod yn awyddus i ddatblygu'r gwasanaeth gyda gweithlu sydd wedi'i hyfforddi'n addas.

## Yr hyn a ganfuom a wnaeth y gwasanaeth hwn yn dda

- Canfuom fod y rheolwyr yn frwdfrydig ac yn ymroddedig i’w gwaith o redeg y clinig.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Dylid adolygu polisïau a gweithdrefnau bob blwyddyn a'u hadolygu i sicrhau eu cadernid.
- Dylai’r staff lofnodi polisïau a gweithdrefnau i gadarnhau eu bod yn eu deall.

# Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu o fewn atodiadau'r adroddiad arolygu llawn.

Gofynnwn i'r bwrdd iechyd gymryd camau brys pan fyddwn yn nodi pryderon sy'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion. Mae'r pryderon hyn wedi'u hamlinellu yn yr atodiadau ac yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y bwrdd iechyd i amddiffyn diogelwch cleifion ac sydd wedi'u cymeradwyo gennym ni. Rydym hefyd yn darparu tabl manwl o welliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a gwella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal, rydym yn amlinellu pryderon a godwyd ac yn cydnabod y rhai a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.

Ar yr adeg briodol, mae AGIC yn gofyn i'r bwrdd iechyd gadarnhau bod camau wedi'u cymryd yn unol ag ymatebion rheolwyr a ddogfennwyd yn y cynllun gwella. Rydym hefyd yn gofyn i fyrddau iechyd ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r camau a gymerwyd a/neu'r cynnydd a wnaed.

